**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref PO/301/2024

Heledd Fychan AS

Heledd.Fychan@senedd.cymru

30 Hydref 2024

Annwyl Heledd,

Yn dilyn fy natganiad llafar yn dathlu'r ddarpariaeth trochi hwyr yng Nghymru, a'r drafodaeth cafwyd ar ôl hynny, ymrwymais i anfon rhestr atoch yn cynnwys y gwahanol fodelau o drochi hwyr a weithredir gan awdurdodau lleol ar draws Cymru. Gobeithiaf fod y tabl yn yr atodiad i'r llythyr hwn yn ateb y gofyn hynny.

Fel i mi grybwyll yn fy natganiad, mae pob sir ar wahanol gamau o'u siwrne trochi hwyr ac mae'r amrywiaethau yn modd y darperir trochi hwyr mewn gwahanol siroedd yn adlewyrchu hynny. Nid wyf yn gweld hyn fel gwendid. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol ac ymarferwyr yn dod i ddeall pa fodel neu gyfuniad o fodelau sy'n ateb gofynion eu hardaloedd nhw. Rwy'n ymwybodol, er enghraifft, fod Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cefnogi 18 o ddysgwyr drwy eu darpariaeth trochi hwyr yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gyda 7 eisoes wedi'u trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yr hyn sy'n ddiddorol, yn fy marn i, yw'r awydd ymysg awdurdodau lleol ac ymarferwyr trochi hwyr i ddysgu wrth ei gilydd. Gwerth nodi nad yw hynny yn gyfyngedig i'r siroedd hynny sydd ar gychwyn eu taith yn unig. Mae'r siroedd mwyaf profiadol fel Gwynedd, Ceredigion a Sir Gar hefyd i'w gweld yn elwa o brofiadau siroedd y de-ddwyrain, yn enwedig wrth gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hadnabod fel rhai fyddai'n elwa o gael hwb ieithyddol ychwanegol. Rwy'n gweld y cydweithio a'r cyd-ddysgu yma yn gryfder.

Rydym wedi cefnogi Estyn dros y flwyddyn ddiwethaf i beilota trefniadau arolygu trochi hwyr awdurdodau lleol. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd ac rwy'n edrych ymlaen at weld beth gallwn ddysgu o'r gwaith hynny. Rwyf am weld darpariaethau trochi hwyr awdurdodau lleol ar draws Cymru yn tyfu ac esblygu er mwyn cynnig llwybr i mwy o blant, o bob gallu a chefndir i gaffael y Gymraeg.

Diolch i chi am eich cefnogaeth.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Atodiad**

| **Awdurdod lleol** | **Darpariaeth trochi hwyr** |
|---|---|
| Abertawe | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Garn Goch<br>Ysgol Gynradd Tan-y-Lan<br><br>**Uwchradd**<br>Darpariaeth beilot ar draws Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ac Ysgol Gyfun Gwyr, wedi'i leoli yn Bryn Tawe (Medi 2024) |
| Blaenau Gwent | **Cynradd**<br>Dosbarth y Bont, Ysgol Gymraeg Bro Helyg |
| Bro Morgannwg | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith<br>Ysgol Gwaun y Nant |
| Caerdydd | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Groes-Wen<br><br>**Uwchradd**<br>Canolfan Iaith Bro Edern |
| Sir Gaerfyrddin | **Cynradd**<br>Canolfan Gwen, Drefach<br>Canolfan Llangadog<br>Canolfan Griffith Jones, San Clêr<br>Canolfan Y Bedol, Garnant |
| Casnewydd | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Ysgol Nant Gwenlli<br><br>**Uwchradd**<br>Ysgol Gyfun Gwent Is Coed |
| Castell Nedd Port Talbot | **Cynradd**<br>Y Cwm - Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe |
| Ceredigion | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Y Felin (Felinfach)<br>Canolfan Iaith Y Castell (Aberteifi)<br><br>**Uwchradd**<br>Ysgol Penweddig<br>Ysgol Bro Teifi<br>Ysgol Henry Richard |

| | |
|---|---|
| Conwy | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Dyffryn yr Enfys<br><br>**Uwchradd**<br>Ysgol y Creuddyn |
| Sir Ddinbych | **Cynradd**<br>Ysgol Dewi Sant<br><br>**Uwchradd**<br>Canolfan Glan Clwyd Ysgol Glan Clwyd |
| Sir Fynwy | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Ysgol y Ffin |
| Gwynedd | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Maesincla (Ysgol Maesincla)<br>Canolfan Iaith Dolgellau (Ysgol y Bro Idris)<br>Canolfan Iaith Llangybi (Ysgol Llangybi)<br><br>**Years 5-9**<br>Canolfan Iaith Bangor - Ysgol Tryfan<br>Canolfan Iaith Dolgellau / Tywyn<br><br>**Uwchradd**<br>Canolfan Iaith Porthmadog - Ysgol Eifionydd |
| Sir Benfro | **Uwchradd**<br>Canolfan Iaith Preseli (Ysgol Bro Preseli)<br>Canolfan Iaith Bro Gwaun (Ysgol Bro Gwaun)<br>Canolfan Iaith Caer Elen (Ysgol Caer Elen) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | **Cynradd**<br>Darpariaeth peripatetig yn:<br>Ysgol Gymraeg Cynwyd Sant<br>Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd<br>Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd<br>Ysgol y Ferch o'r Sgêr |
| Powys | **Cynradd**<br><br>Meistri Maldwyn 3, Ysgol Dafydd Llwyd<br>Canolfan Iaith Maldwyn, Ysgol Bro Caereinion |
| Rhondda Cynon Taf | **Cynradd**<br>Darpariaeth peripatetig - 'Taith Iaith'. |
| Sir y Fflint | **Cynradd**<br>Darpariaeth peripatetig<br><br>**Uwchradd**<br>Canolfan Iaith Ysgol Maes Garmon |
| Torfaen | **Cynradd**<br>Canolfan Carreg Lam, Ysgol Pant Teg |
| Wrecsam | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Cynefin, Ysgol Min-y-Ddol<br><br>**Uwchradd** |

| | |
|---|---|
| | Ysgol Morgan Llwyd |
| Ynys Môn<br><br><br><br><br><br><br>Merthyr Tudful<br><br><br><br>Caerffili | **Cynradd**<br>Canolfan Iaith Moelfre (Ysgol Gymunedol Moelfre)<br>Canolfan Iaith Cybi (Ysgol Cybi)<br><br>**Uwchradd**<br>Darpariaeth peripatetig<br>**Cynradd**<br>Cefnogaeth drochi i ddysgwyr yn Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd y Grug<br><br>**Cynradd**<br>Canolfan Iaith Gwenllian<br>Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod |